



Ein cyf/Our ref: MA/RE/4167/21

Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

20 Rhagfyr 2021

### Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021

Heddiw rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2021 o dan adrannau 14(3) a (6), 46(4), 93 a 94(1) o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2022. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, yr wyf yn bwriadu ei osod cyn gynted ag y bydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd yn adran 95 o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, rhaid i'r offeryn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 6 Chwefror 2022 er mwyn iddo barhau i fod yn weithredol. Yn yr amgylchiadau hyn rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y gall y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen adrodd ar gyfer y pwyllgor neu bwyllgorau â chyfrifoldeb. Gall fod yn ddefnyddiol i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon ar 1 Chwefror 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS**  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.